Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth ar ofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus

Tachwedd 2022

Rhagarweiniad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth ar ofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus. Hoffai'r Comisiynydd gynnig sylwadau am y meysydd penodol sydd wedi eu nodi isod.

Cyflwyno Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Mae'r Comisiynydd yn cytuno mewn egwyddor gyda chynnig Llywodraeth Cymru i alluogi byrddau iechyd i wneud taliadau uniongyrchol i bobl sy'n gymwys i gael Cyllid Gofal Iechyd (GIP) Parhaus y GIG.

Mae'r Comisiynydd yn ymwybodol o bobl hŷn sydd wedi gorfod dewis rhwng parhau gyda Thaliadau Uniongyrchol neu dderbyn cyllid GIP. Mewn achosion o'r fath, nid anghenion yr unigolyn sydd wedi cael y flaenoriaeth bob tro: er enghraifft, pan fu anghytuno rhwng gwahanol gyllidwyr ynghylch pwy ddylai dalu, a lle mae Byrddau Iechyd wedi awgrymu bod angen i unigolion newid lleoliadau gofal er mwyn cael y cyllid GIP y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Gallai hyn olygu symud o'u cartref eu hunain, neu i gartref gofal gwahanol[1]. Mae'r Comisiynydd yn disgwyl y byddai cyflwyno Taliadau Uniongyrchol ar gyfer GIP yn arwain at sicrhau gofal di-dor sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pob person hŷn sydd ei angen.

Fodd bynnag, mae gan y Comisiynydd bryderon ynghylch sut mae Taliadau Uniongyrchol yn gweithio'n ymarferol ym maes gofal cymdeithasol, ac am risgiau sy'n rhan annatod o unrhyw gynllun taliadau uniongyrchol GIP.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
New, Teitl Swydd: Valerie Billingham, Arweinydd Iechyd a Gofal
03442 640 670 // cyfeiriad ebost Valerie.billingham@olderpeople.wales

Nifer y bobl hŷn sy'n eu derbyn

Mae'r nifer sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol mewn gofal cymdeithasol yn isel ymhlith pobl hŷn. Yn ôl Archwilio Cymru ychydig dros draean o'r rheini sy'n cael Taliadau Uniongyrchol (36.1%) sydd dros 65 oed, er bod y grŵp oedran hwn yn cynrychioli dros 75% o oedolion sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid i daliadau uniongyrchol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol gynnwys darpariaethau i helpu mwy o bobl hŷn, gan gynnwys gofalwyr a phobl sy'n byw â dementia, elwa o hyblygrwydd Taliadau Uniongyrchol heb gael eu llethu â chyfrifoldebau anghyfarwydd a beichus ar ben y materion y maent eisoes yn cael trafferth a nhw.[2]

Cyflenwi gwasanaethau gofal a chymorth

Weithiau mae awdurdodau lleol yn cynnig taliadau uniongyrchol i bobl hŷn fel cam olaf, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle mae problemau penodol i gael gofal cartref. Nid yw Taliadau Uniongyrchol yn llenwi'r bwlch yn lle cyflenwad digonol o wasanaethau gofal a chymorth. Mae llwyddiant Taliadau Uniongyrchol yn dibynnu ar ffynonellau cymorth sefydlog o fewn cymunedau y gellir cyfeirio pobl atynt, neu y gallant gael mynediad atynt yn uniongyrchol.

Goruchwylio a monitro

Mae GIP yn cael ei roi i bobl sydd ag anghenion gofal cymhleth. Os yw pobl yn prynu gwasanaethau i ddiwallu unrhyw anghenion eu hunain, mae'n bwysig bod y bwrdd iechyd yn goruchwylio a monitro'r gwasanaethau hynny'n briodol, er mwyn sicrhau bod y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir yn ddigonol.

Ffioedd atodol

Mae'r Comisiynydd yn siomedig gydag ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion 11 a 12 yn adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ar Gomisiynu Cartrefi Gofal[3], ac mae'n bryderus dros ben am y risg y gallai pobl hŷn orfod talu ffioedd atodol er mwyn cael mynediad at wasanaethau hanfodol a dalwyd amdanynt gyda thaliadau uniongyrchol GIP.

Mae tîm Cyngor a Chymorth y Comisiynydd wedi derbyn sawl ymholiad gan unigolion â pherthnasau sy'n byw mewn cartrefi gofal ac sydd wedi cael cais gan ddarparwr cartref gofal i dalu ffioedd atodol ar ben cyllid Gofal Iechyd Parhaus gan y Bwrdd Iechyd. Roedd y rhesymau a roddwyd gan y darparwr dros godi'r ffioedd atodol yn anghyson. Dywedodd y rhai a holodd eu bod wedi cael gwybod bod y ffioedd ar gyfer manteision ychwanegol fel mynediad i'r ardd (nad oedd modd i'r preswylwyr dan sylw, a oedd wedi'u cyfyngu i'r gwely â dementia diweddarach ac yn agosáu at ddiwedd eu hoes, eu defnyddio), neu i gael

cwmni wrth ymweld â meddyg teulu, (y mae'r Comisiynydd yn eu hystyried yn hanfodion, nid yn fanteision ychwanegol). Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd wedi gweld llythyr gan reolwr cartref gofal sy'n dweud bod y ffioedd yn cael eu codi oherwydd nad oedd cyfradd y Bwrdd Iechyd ar gyfer cyllid Gofal Iechyd Parhaus yn ddigonol i dalu costau.

Mae'n destun pryder bod preswylwyr a'u teuluoedd wedi cael trafferth herio ffioedd atodol cartrefi gofal. Gall unigolion fynd ag achosion at Adrannau Safonau Masnach awdurdodau lleol er mwyn iddynt weithredu, a gallant gymryd camau cyfreithiol eu hunain. Fodd bynnag, mae cyllid cartrefi gofal yn faes cymhleth, ac nid yw lefel yr arbenigedd sydd ei angen bob amser ar gael. Mae hyn yn golygu mai cynrychiolaeth gyfreithiol bersonol yw'r llwybr mwyaf tebygol, ond mae'n gostus ac yn anodd dod o hyd i gyfreithiwr priodol.

Er gwaethaf ymyriadau gan y Comisiynydd gyda'r Bwrdd Iechyd a'r darparwr, ac er gwaethaf trafodaethau helaeth rhwng tîm y Comisiynydd a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, ymddengys nad oedd modd gwneud iawn ac roedd y darparwr yn parhau i godi'r ffioedd atodol. Mae hyn yn bryder difrifol. Mae'n hanfodol bod unrhyw un sy'n talu am wasanaeth gyda Thâl Uniongyrchol GIP yn cael ei warchod rhag gorfod talu ffioedd atodol heb gyfiawnhad, ac y dylai fod system hyfyw ar gyfer gwneud iawn.

Dyletswydd i adrodd am oedolyn mewn perygl

Mae'r Comisiynydd yn cefnogi'r ddyletswydd sefydliadol bresennol i adrodd am oedolyn sydd mewn perygl o dan adran 128 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i 'bartneriaid perthnasol' awdurdod lleol, megis yr heddlu, gwasanaethau prawf, Bwrdd Iechyd lleol neu Ymddiriedolaeth GIG, Gweinidogion Cymru neu Ysgrifennydd Gwladol (wrth gyflawni rhai swyddogaethau) ac awdurdodau lleol eraill, adrodd am oedolion sydd mewn perygl yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gan y Comisiynydd sawl pryder ynghylch cyflwyno gofyniad cyfreithiol i rai unigolion roi gwybod am oedolyn sydd mewn perygl.

Yn gyntaf, mae'n bwysig cydnabod hawliau ac annibyniaeth pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu sy'n cael eu cam-drin. Bydd i ba raddau y gall pobl hŷn fod yn rhan o wneud penderfyniadau a phenderfynu ar gamau sy'n gysylltiedig â cham-drin, yn dibynnu ar sawl ffactor (e.e., ystyriaethau capasiti meddyliol; a yw'r pryder diogelu yn ymwneud â mater budd y cyhoedd). Yn gyffredinol, fodd bynnag, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i ddymuniadau a dewisiadau pobl hŷn wrth benderfynu ar gamau ynghylch pryderon diogelu. Mae risg y bydd 'dyletswydd i adrodd' yn arwain at wthio lleisiau pobl hŷn i'r cyrion mewn prosesau diogelu.

Er mwyn i ymyriadau diogelu fod yn effeithiol, rhaid caniatáu i ymarferwyr arfer eu galluoedd gwneud penderfyniadau proffesiynol a gwneud dyfarniadau yn unigol, ar sail y wybodaeth a gafwyd drwy eu perthynas ag unigolion a theuluoedd. Gallai gofyniad am 'ddyletswydd i adrodd', yn enwedig os caiff ei orfodi drwy sancsiynau, gymell pobl hŷn i beidio â datgelu achosion o gam-drin yn gynnar, a allai fod wedi helpu i atal achosion o gam-drin rhag gwaethygu.

Gallai ofn sancsiynau hefyd arwain at arferion anghymesur, gwrth-risg lle mae ymarferwyr yn adrodd pob pryder am gam-drin, heb ymchwilio'n llawn i fanylion sefyllfa. Gallai adrodd cynamserol niweidio perthnasoedd, y rhai rhwng pobl hŷn ac ymarferwyr a rhwng pobl hŷn ac aelodau ehangach o'r teulu, mewn ffyrdd a allai waethygu, yn hytrach na dileu cam-drin.

Diwygiadau i reoleiddio darparwyr gwasanaethau, unigolion cyfrifol a'r gweithlu gofal cymdeithasol

Mae'r Comisiynydd yn cytuno â'r cynigion i ganiatáu i Arolygiaeth Gofal Cymru gael mynediad at wybodaeth a mynd i mewn i safle gwasanaeth, sy'n ymddangos heb ei gofrestru (yn groes i'r gofynion). Mae hyn yn hollbwysig i sicrhau bod y rhai sy'n derbyn y gwasanaeth hwnnw yn cael y gofal a'r cymorth priodol.

Byddai'r Comisiynydd a'i thîm yn hapus i drafod y sylwadau hyn ymhellach.

---

[1]Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynu cartrefi gofal i bobl hŷn, ymateb i'r ymgynghoriad ym mis Mai 2022 - Comisiynu cartrefi gofal i bobl hŷn - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

[2]Archwilio Cymru, Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Ebrill 2022 Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion (archwilio.cymru)

[3] Julie Morgan AS, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ar Gomisiynu Cartrefi Gofal, Hydref 2022 ATODIAD 7 – Fformat Ymateb y Cabinet i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i ddiogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn, a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Rhif ffôn: 03442 640 670

E-bost: gofyn@comisiynyyph.cymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @comisiwnphcymru